

--OEDFA FORE'R GROGLITH
Hywel Wyn Richards

Trefn yr Oedfa

Arweiniol F'enaid gwêl i Gesthemane (Emyn 497, pennill 1)

Galwad i Addoli

Prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw trosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid.

Oblegid y gair am y groes, ffolineb yw i'r rhai sydd ar lwybr colledigaeth, ond i ni sydd ar lwybr iachawdwriaeth, gallu Duw ydyw.

Oherwydd pregethu yr ydym Grist wedi ei groeshoelio, yn dramgwydd i'r Iddewon, ac yn ffolineb i'r Groegiaid, ond i'r rhai a alwyd, yn Iddewon a Groegiaid, y mae'n Grist gallu Duw a doethineb Duw.

Oherwydd y mae ffolineb Duw yn ddoethach na dynion, a gwendid Duw yn gryfach na dynion.

Gweddi

Addolwn a chlodforwn di, O Dduw,
am i ti ro i ni dy Fab Iesu Grist
i rannu ein bywyd,
i ddwyn ein gofidiau, ac i ddileu ein pechodau.
Wrth fyfyrion ar aberth ei groes,
arwain ni i ddirgelwch ei ddioddefiadau,
fel y gwelwn mai trwy aberthu y mae'n teyrnasu,
trwy garu y mae'n gorchfygu,
a thrwy farw y mae'n estyn i ni fywyd tragwyddol.
Amen (*Elfed ap Nefydd Roberts*)

Emyn 496 I Galfaria trof fy wyneb

Darlleniadau Gesthemane – Marc 14:32–42;
Dedfrydu Iesu – Ioan 19: 1–7; 13–16;
Croeshoelio Iesu – Mathew 27: 33–44;
Marwolaeth Iesu – Luc 23: 44–49;

Gweddiâu

Rhyfeddod y groesp

Dragwyddol Dad a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, caniatâ inni gymorth dy gariad a'th ras fel y

gallom fyfyrion ddwys ar ryfeddod dy groes. Dysg ni i ganfod loes dy galon di dy hun yn nioddefiadau Iesu Grist, a phâr fod meddwl am ei boen a'i angau drud yn denu ein serch oddi wrth drysorau'r byd. Gwared ni rhag bod yn ddiystyr o'r cariad diollwng a'i rhoddes ei hun trosom er cymaint ein pechod a'n bai, a rho inni brofiad o rin yr aberth mawr yn glanhau ein calon ac yn cryfhau ein hewyllys.

Dod yn ein gofidiau

At y groes y deugn a'n tristwch, o achos y profedigaethau sydd wedi bylchu'n bywyd a'r cleisiau hynny nad ydynt yn gwella.

At y groes y deugn a'n heuogrwydd, am inni achosi poen i eraill ac am inni syrthio'n fyr o'th ofynion di arnom.

At y groes y deugn a'n dicter, o achos ymddygiad anghyfrifol pobl eraill ac am inni gael ein siomi a'n brifo ganddynt.

At y groes y deugn a'n hofnau, o achos ein gwendid yn wyneb grym creulondeb a'r atgasedd sy'n berwi ynom ni ein hunain.

Yr wyt ti, Grist croeshoeliedig, yn rhannu â ni yn nhriswch, euogrwydd, dicter ac ofn y byd: o'th groes, helpa ni i ymgynnal, i faddau ac i garu.

Dros deulu poen ymhob man

Arglwydd Iesu, a ddioddefodd drosom ar y groes, gweddiwn dros deulu poen ym mhob man:

dros y rhai sy'n dwyn croes afiechyd a llesgedd,
a'r rhai sydd yng ngafael anobaith ac iselder ysbryd;

dros y rhai sy'n dwyn croes galar a thristwch,
a'r rhai y mae hiraeth ac unigrwydd yn eu llethu;

dros y rhai sy'n dwyn croes gormes a thrueni,
a'r rhai sy'n nychu o brinder bwyd.

Ti, a brofaist holl boenau teulu'r llawr,
rho i'th blant anghenus ym mhob man,

dy dangnefedd yn eu gofidiau a'th nerth i ymgynnal yn eu gwendidau.

Clyw ni yn enw Iesu Grist a'n dysgodd i weddio drwy ddweud, 'Ein Tad ...'

Eryn 534 O Iesu mawr, pwy ond tydi

Myfyrdod B ***ryn y Croesau***

Eryn 540 Yng Nghroes Crist y gorfoleddaf;

Y Fendith

Myfyrdod

Yng ngogledd gwlad Lithwania, tua 6 milltir o ddinas Siauliai (Shoo-lay) mae yna fryn sydd bellach yn gyrchfan pererindod i Gristnogion o bob cwr o'r byd.

Ei enw yw Bryn y Croesau – Kryžių Kalnas – The Hill of Crosses, ac mae'n cynrychioli ffydd a defosiwn pobl Lithwania dros ganrifoedd lawer.

Mae hanes dinas Siauliai (Shoo-lay) yn cychwyn yn 1236 ac fe gred rhai fod y traddodiad o osod croesau ar y bryn yn dyddio 'nol i'r cyfnod hynny.

Yn sicr mae'r bryn wedi cynrychioli gwrthdystiad heddwchlon pobl Lithwania i ormes ers yr oesoedd canol.

Yn 1795 daeth Lithwania o dan awdurdod Rwsia, ac yn 1831 ac 1863 cododd y werin yn erbyn y gormeswr, ac fe dyfodd y nifer o groesau ar y bryn yn y cyfnod hynny.

Erbyn 1895 roedd o leiaf 150 o groesau mawr yno, 200 yn 1914 ac erbyn 1940 a'r wlad dan ormes y Natsïaid roedd beth bynnag 400 o groesau mawr wedi eu hamgylchynu gan filoedd o rai llai.

Rhwng 1944 ac 1991, roedd Lithwania dan bawen yr Undeb Sofietaidd, a dyma gyfnod pan yr enillodd Bryn y Croesau arwyddocâd arbennig i bobl y wlad. Byddai pobl yn pererindota yno, a hynny yn cynnal eu gobaith a'u ffydd.

Roedd y Comiwnyddion yn deall yn iawn arwyddocâd y bryn, ac ar dri achlysur - 1961, 1973 ac 1975, fe aed ati i symud y croesau, llosgi'r rhai pren, a thoddi'r rhai metal, a gwasgaru carthion dros y tir.

Ond dro ar ôl tro byddai pobl yn teithio o bob rhan o'r wlad i fentro, liw nos, i osod croesau newydd - er bod y bryn dan warchae milwrol. Yn y diwedd yn 1985 derbyniodd yr awdurdodau na fedran nhw ennill a chaniatawyd pererindota unwaith eto.

Ymwelodd y Pab Ioan Pawl a'r bryn yn 1993 gan ei gyhoeddi yn fan gobaith, heddwch, cariad ac aberth.

Does neb yn gwybod faint yn union o groesau sydd yno, ond yr amcangyfrif yn 2006 oedd o leiaf 100,000.

Man gweddïo am heddwch i'w gwlad a'i phobl yw Bryn y Croesau wedi bod am genedlaethau lawer, mae'n cynrychioli goroesiad Lithwania fel gwlad, ond hefyd goroesiad yr eglwys a ffydd a chred y bobl. A'r croesau lu yn cynnal gobaith a ffydd.

Mae Gwener y Groglith yn ein hatgoffa ni pa mor ganolog yw'r Groes yn stori'r Ffydd

Gristnogol.

Medd Elfed ap Nefydd Roberts, 'Y groes yw arwydd canolog ein ffydd a chanolbwynt ein defosiwn gan mai ynddi hi y gwelwn grynhoi popeth a wnaeth Duw trosom yn Iesu Grist.'

Wrth gwrs mae yna gryn drafod – a dadlau – wedi bod dros y canrifoedd o beth yn union a wnaeth Duw trosom yn Iesu Grist ar y groes.

Un o'r meddylwyr mwyaf dylanwadol ar ddiwinyddiaeth y traddodiad Pabyddol a Phrotestannaidd oedd Anselm, Archesgob Caergaint yn y flwyddyn 1000. Cred Anselm oedd bod Crist wedi marw fel 'dirprwy' drosom ar y groes. Cred sy'n cael ei chyflwyno yn emyn mawr Paul Gerhardt a cherddoriaeth J. S. Bach 'O Sacred Head Now Wounded'.

What thou, my Lord, has suffered
Was all for sinners' gain:
Mine, mine was the transgression.
But thine the deadly pain.

Mae Iesu yn talu'n dyled ac yn ateb gofynion cyfiawnder Duw.

Y meddyliwr dylanwadol i'r pegwn arall oedd Abelard – un o gyfoedion Anselm. Y broblem sylfaenol i Abelard oedd nid fod pechod pobl yn tramgwyddo cyfiawnder Duw, ond diffyg cariad pobl tuag at Dduw a thuag at ei gilydd. Daeth Iesu i ddatguddio cariad Duw ac i ennyn cariad ynom ni tuag at ein gilydd.

Chwedl Azariah Shadrach:

Nid dim rhinweddau ynom ni
Na dim a wnaed ar Galfari
Fu'n achos iddo garu dyn
Fe'i carodd er ei fwyn ei hun

'Mae'r groes yn toddi'r galon galed a'i chynhesu â'r cariad dwyfol,' medd Abelard, 'ac yn ennyn ymateb ynom i gariad rhyfeddol Duw'.

Dyna sydd gydag Isaac Watts yn ei emyn mawr, ond dyw'r cyfieithiad ddim yn gwneud cyfiawnder a'r pennill olaf

Were the whole realm of nature mine,
That were a present far too small:
Love so amazing, so Divine
Demands my soul, my life, my all.

Eto, mae Elfed ap Nefydd Roberts yn dweud; 'Ar y groes y gwelwn gliraf natur a grym cariad

Duw tuag atom. O'r groes y profwn ras a thrugaredd dwyfol yn llifo tuag atom, yn ein cofleidio a'n cymodi a Duw. A thrwy'r groes cawn ein newid, ein rhyddhau o afael ein pechodau, ein gwisgo a chyfiawnder Iesu, a'n gwneud yn greaduriaid newydd. O fawrygu'r groes a'i gwneud yn ffocws ein ffydd a'n bywyd ysbrydol, profwn holl bwerau achubol Duw yn ein puro, ein hail-greu a'n tynnu i berthynas agosach ag ef ei hun.'

A dyna brofiad pobl yn Efrog Newydd yn dilyn 9/11.

Drennydd yr ymosodiad daeth Frank Silecchia, un o'r gweithwyr oedd yn chwilio am rywrai oedd wedi goroesi ynghanol y difrod, ar draws darn o ffrâm un o'r tyrrau dros 20 troedfedd o uchder ar ffurf croes. Ac o'r foment hynny ymlaen fe ddechreuodd y gweithwyr ac eraill oedd yn ymweld â'r safle ddefnyddio'r fan fel cyrchfan i weddio.

Wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen bu'n rhaid symud y groes ac fe'i gosodwyd ar bedestal concrit a'i symud i leoliad newydd, ond fe ddaliodd i fod yn gyrchfan gweithwyr a theuluoedd rhai a gollwyd yn y trychineb.

Medd aelod o deulu un a gollwyd yn y digwyddiad, 'It was as if the cross took in the grief and loss. I never felt Jesus more.'

Bellach mae yna fodolau o'r groes wedi ei gosod mewn gwahanol fannau yn Efrog Newydd, a'r bwriad yw gosod y gwreiddiol yn yr amgueddfa fydd yn cael ei chodi i gofio'r trychineb.

Pan symudwyd y groes cynhaliwyd gwasanaeth syml i'w 'chysegru' ac medd y Tad Brian Jordan, 'Dyma arwydd o Obaith, Ffydd ac Iachâd'.

Medd C. S. Lewis yn ei gyfrol *Mere Christianity*:

'The central Christian belief is that Christ's death has somehow put us right with God and given us a fresh start ... A good many theories have been held as to how it works: what all Christians agree on is that it does work.'

Y Groglith yma mae yna gyfle i ni gofio hynny, a chyhoeddi hynny, unwaith eto.